# ETHOLIAD CEREDIGION, 1906.

Tôn—YMDAITH CADBEN MORGAN,
(By our Townsman, Cadvan).

Fechgyn Ceredig, o anfarwol fri,
Meibion Rhyddid erioed ydych chwi,
Eiddo chwi 'r gogoniant er gwaethaf pob ystwr—
Buddugoliaeth Hyddgant, a Chledd Glyndwr!
Fechgyn Ceredig! Chwi fu 'n cario 'r dydd;
Mynwch gadw Cymru yn Gymru Rydd.

Heddyw daw y gelyn i mewn i'ch anwyl wlad,
Mêl sydd ar ei dafod, ond yn ei galon—Brâd!
Un o feibion Joab atoch heddyw ddaw—
Rhyddid ar ei wefus, a Chledd yn ei law!
Fechgyn Ceredig! Safwch yn y ffydd—
Mynwch gadw Cymru yn Gymru Rydd.

Os yw yr Ymyrwr yn Rhyddfrydol ddyn
Pa'm y rhwyga Wersyll ei blaid ei hun?
Os yw o'r Toriaid, pa'm yn awr na ddaw
I'r ymdrechfa 'n onest, a'u baner yn ei law?
Fechgyn Ceredig! Safwch yn y ffydd—
Mynwch gadw Cymru yn Gymru Rydd.

Pleidiwch Vaughan Davies, sy 'n Rhyddfrydwr pur,—
Brofwyd gan frwydrau—safodd fel y dur;
Talwch mewn ffyddlondeb, i'r Boneddwr fu
I fuddianau Cymru, yn ffyddlon yn y Ty.
Fechgyn Ceredig! Safwch yn y ffydd—
Mynwch gadw Cymru yn Gymru Rydd.

---

Printed and Published by J. and J. Gibson,
Terrace Road Aberystwyth.